# AMCANGYFRIFON AELWYDYDD ABERTAWE, 2020

## Cyflwyniad

Ar 23 Medi 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r amcangyfrifon ar gyfer aelwydydd Cymru (canol blwyddyn 2020) a'i 22 o ardaloedd awdurdod lleol. Dyma'r diweddaraf mewn cyfres o amcangyfrifon aelwydydd canol blwyddyn flynyddol, sy'n seiliedig ar ddata'r Cyfrifiad ac amcangyfrifon poblogaeth, a'r cyhoeddiad terfynol cyn i ganlyniadau Cyfrifiad 2021 ddod i'r amlwg yn 2022. Bydd hyn yn cynnwys data newydd ar gyfansymiau a chyfansoddiad aelwydydd.

At y dibenion hyn, diffinnir aelwyd fel *un person sy'n byw ar ei ben ei hun, neu grŵp o bobl (nad ydynt o reidrwydd yn perthyn i'w gilydd) sy'n byw yn yr un cyfeiriad ac yn cadw tŷ gyda'i gilydd – hynny yw, naill ai'n rhannu ystafell fyw neu lolfa neu o leiaf un pryd o fwyd y dydd.* Mae amcangyfrifon aelwydydd yn seiliedig ar dueddiadau hanesyddol ac maent yn darparu amcangyfrifon o niferoedd aelwydydd y gorffennol. Daw y rhain o amcangyfrifon poblogaeth (yn ôl oedran a rhyw) a gwybodaeth hanesyddol am gyfansoddiad a nodweddion aelwydydd o'r Cyfrifiad. Ceir amlinelliad o'r fethodoleg a ddefnyddir yn Atodiad 1.

Defnyddir amcangyfrifon aelwydydd gan y rheini y mae angen iddynt ystyried tueddiadau'r gorffennol a'r presennol yn y galw am lety er mwyn cynllunio ar gyfer darpariaeth tai'r dyfodol ac er mwyn cyflwyno gwasanaethau megis yr awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus eraill, asiantaethau tai a sefydliadau eraill yng Nghymru. Maent hefyd yn cael eu defnyddio ar gyfer datblygu polisi, fel rhan o'r Setliad Cyllid Llywodraeth Leol, ar gyfer proffilio a meincnodi ac er mwyn cyfrifo rhagor o ystadegau (e.e. fel enwaduron ar gyfer cyfraddau, er mwyn dadansoddi arolygon).

Mae'r nodyn briffio hwn yn darparu trosolwg o'r ffigurau cyhoeddedig diweddaraf, mae'n nodi'r tueddiadau diweddaraf ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau arwyddocaol ar gyfer Abertawe, gan gynnwys dadansoddiad o niferoedd aelwydydd yn ôl math. Cyhoeddir y rhain ar ffurf tabl yn Atodiad 2.

## Newidiadau yng Nghymru

Amcangyfrifir mai nifer yr aelwydydd yng Nghymru ar gyfer canol blwyddyn 2020 yw 1,378,200 - cynnydd o 9,500 (+0.7%) o ffigur 2019 ac 45,900 (+3.4%) yn uwch na phum mlynedd yn flaenorol (2015). Er bod yr holl ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru wedi dangos peth twf mewn aelwydydd dros y flwyddyn ddiweddaraf a'r cyfnod tymor hwy, mae graddfa hyn yn amrywio. Rhwng 2015 a 2020, roedd y gyfradd twf uchaf o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru ym Mro Morgannwg, sef cynnydd o 7.1% (+3,900 aelwyd), wedi'i ddilyn gan Gasnewydd (+6.2%). Yng Ngheredigion y cafwyd y cyfraddau twf isaf ar gyfer y cyfnod hwn (+0.5%) a Phowys (+1.8%). Dangosir y tueddiadau diweddar (2019-2020) a thymor hwy (2015-20) ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru, wedi'u rhestru yn ôl cyfanswm yr aelwydydd (2020) yn Atodiad 3.

## Tueddiadau yn Abertawe

Amcangyfrifir bod cyfanswm nifer yr aelwydydd (â phreswylwyr) yn Abertawe yng nghanol 2020 yn **109,700** (wedi'i dalgrynnu), cynnydd o oddeutu 200 (neu 0.2%) ar ffigur 2019. Digwyddodd hyn wrth i amcangyfrif o boblogaeth aelwydydd preifat Abertawe ostwng ychydig yn ystod y flwyddyn o 400 (-0.2%), yr unig ardal yng Nghymru i wneud hynny.

Dros y flwyddyn, roedd gan Abertawe'r chweched lefel isaf o ran twf yng Nghymru, a'r ail isaf fel canran (ar ôl Merthyr Tudful).

Dros y cyfnod tymor hwy (rhwng 2015 a 2020), mae nifer yr aelwydydd yn Abertawe wedi cynyddu oddeutu 3,400 (+3.2%). Er mai hwn oedd yr ail lefel uchaf o dwf niferol yng Nghymru (ar ôl Caerdydd, +7,100), o ran canran y twf dros y degawd, Abertawe oedd yr 11eg uchaf o'r 22 awdurdod lleol.

## Maint cyfartalog aelwyd

Mae maint cyfartalog aelwyd yn darparu 'prif' fesur syml o gyfansoddiad aelwyd a chyfrifir hyn drwy rannu amcangyfrifon o nifer y bobl sy'n byw mewn aelwydydd preifat â nifer yr aelwydydd. Dros gyfnod o bum mlynedd, sef 2015-2020, mae nifer yr aelwydydd yn Abertawe wedi tyfu'n gynt na'r boblogaeth aelwydydd preifat (yn unol â holl rannau Cymru). O ganlyniad, mae maint cyfartalog aelwyd yn Abertawe wedi lleihau o 2.23 yn 2015 i 2.20 person fesul aelwyd yn 2020 (er mae'n is na chyfartaledd Cymru, sef 2.26).

## Mathau o aelwydydd yn Abertawe

Yn 2020, roedd aelwydydd un a dau berson yn cyfrif am bron dwy ran o dair o bob aelwyd yn Abertawe, a'r mathau mwyaf cyffredin o aelwydydd o bell ffordd oedd aelwydydd person sengl (tua 38,900 neu 35.5% o'r cyfanswm), ac aelwydydd 2 berson, heb blant (32,200 neu 29.4%). Mae cyfran yr aelwydydd person sengl yn Abertawe'n uwch na chyfartaledd Cymru (32.3%) ond mae cyfran yr aelwydydd dau oedolyn (yn unig) ychydig yn is (Cymru: 31.2%).

## Newid yn ôl math o aelwyd

Rhwng 2015 a 2020, roedd prif dueddiadau Abertawe yn ôl y math o aelwyd – yn nhermau cyfansoddiad oedolyn/plentyn – fel a ganlyn:

- Y categori o aelwyd â'r cynnydd mwyaf, yn ôl niferoedd, yw aelwydydd person sengl - cynnydd o oddeutu 2,400 (+6.6%) dros y cyfnod.
- Gwelwyd y cynnydd canrannol mwyaf mewn aelwydydd 5 oedolyn, ac aelwydydd heb blant (+9.3%).
- Mae cyfanswm yr aelwydydd rhiant unigol (1 oedolyn ac 4.7 plentyn neu fwy) wedi cynyddu 4.7% ar y cyfan, o 7,500 yn 2015 i 7,900 yn 2020 a chafwyd yr holl dwf yn y categori ehangach hwn mewn aelwydydd 1 oedolyn, 1 plentyn (+400).
- Cynyddodd nifer yr aelwydydd 2 oedolyn, ac aelwydydd heb blant 900 (+2.7%) o 31,400 yn 2015 i 32,200 yn 2020. Ar y cyfan, mae cyfran yr aelwydydd o'r math hwn wedi parhau'n weddol sefydlog rhwng 2015 a 2020 - tri o bob deg aelwyd yn Abertawe yn gyffredinol.
- O'i gymharu, mae cyfanswm yr aelwydydd 2 oedolyn, 1 plentyn (neu fwy) wedi gostwng oddeutu 300 (-1.7%) dros y cyfnod i 19,700 aelwyd.
- Newid sylweddol arall dros y pum mlynedd diwethaf, yw cyfran yr aelwydydd 4+ oedolyn, ac aelwydydd heb blant, gyda chyfanswm cynnydd o 5.6% (+200) i 4,500 erbyn 2020. Gallai hyn adlewyrchu'r cynnydd yn niferoedd y myfyrwyr (ac aelwydydd myfyrwyr/aelwydydd a rennir) yn Abertawe a thueddiadau cymdeithasol diweddar eraill mewn trefniadau byw a chyfansoddiad aelwydydd.

*Os oes gennych unrhyw ymholiadau eraill mewn perthynas ag amcangyfrifon aelwydydd neu newidiadau demograffig yn Abertawe, cysylltwch â'r canlynol:*

**Cyngor Abertawe - Gwybodaeth, Ymchwil a Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol**
E-bost: ymchwil@abertawe.gov.uk
Uned Cyflwyno Strategol, Cyfarwyddiaeth Adnoddau, y Ganolfan Ddinesig, Abertawe SA1 3SN.

## Atodiad 1: **CRYNODEB O FETHODOLEG**

Daw amcangyfrifon aelwydydd Llywodraeth Cymru ar gyfer ardaloedd yr awdurdodau lleol yng Nghymru drwy ddefnyddio rhagdybiaethau am ffurfiant aelwyd ar gyfer amcangyfrifon poblogaeth yn ôl oedran a rhyw. Mae'r canlyniadau felly o ganlyniad i ragdybiaethau ffurfiant aelwyd yn ogystal â thueddiadau yn yr amcangyfrifon poblogaeth gwaelodol (gan gynnwys effeithiau cymharol mudo, marwolaethau a genedigaethau a fydd yn amrywio rhwng yr awdurdodau lleol).

I grynhoi, cyfrifir yr amcangyfrifon drwy:

- ddefnyddio amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn cyhoeddedig diweddaraf SYG a thynnu'r boblogaeth sy'n byw mewn sefydliadau cymunedol (yn ôl oedran a rhyw, yn seiliedig ar ddata'r Cyfrifiad) er mwyn cyfrifo nifer amcangyfrifedig y bobl sy'n byw mewn aelwydydd preifat;
- defnyddio data hanesyddol i ragamcanu cyfraddau aelwydydd o ganol 2001 i ganol 2020 ar gyfer 12 math o aelwyd, yn seiliedig ar faint yr aelwyd a nifer y plant. Cyfrifir hefyd gyfrannau'r bobl sy'n byw ym mhob math o aelwyd;
- lluosi nifer amcangyfrifedig y bobl sy'n byw mewn aelwydydd preifat â'r cyfraddau aelwydydd arfaethedig;
- rhannu'r canlyniadau yn ôl maint aelwydydd a chydgasglu yn ôl oedran, rhyw a math o aelwyd er mwyn rhoi cyfanswm amcangyfrifedig yr aelwydydd ar gyfer pob ardal awdurdod lleol.

## Atodiad 2:
## AMCANGYFRIFON AELWYDYDD A NEWID YN ABERTAWE YN ÔL Y MATH O AELWYD

Niferoedd yr aelwydydd a phoblogaeth mewn miloedd. % y newid yn seiliedig ar niferoedd go iawn.

| Blwyddyn | Pob aelwyd | *PAP* | *MCA* | Math o aelwyd: 1P | 2P | 2P (1O, 1P) | 3P | 3P (2O, 1P) | 3P (1O, 2P) | 4P (0P) | 4P (2+O, 1+P) | 4P (1O, 3P) | 5P+ (0P) | 5P+ (2+O, 1+P) | 5P+ (1O, 4+P) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **2010** | **102.6** | *232.8* | *2.27* | 33.9 | 30.4 | 4.1 | 6.8 | 6.5 | 2.2 | 2.6 | 9.2 | 0.7 | 1.3 | 4.6 | 0.2 |
| (%) yr holl aelwydydd: | | | | (33.1) | (29.6) | (4.0) | (6.6) | (6.4) | (2.1) | (2.5) | (9.0) | (0.7) | (1.3) | (4.5) | (0.2) |
| **2011** | **103.5** | *234.0* | *2.26* | 34.5 | 30.6 | 4.2 | 6.8 | 6.5 | 2.2 | 2.6 | 9.2 | 0.7 | 1.4 | 4.6 | 0.2 |
| (%) yr holl aelwydydd: | | | | (33.4) | (29.6) | (4.0) | (6.6) | (6.3) | (2.1) | (2.5) | (8.9) | (0.7) | (1.3) | (4.4) | (0.2) |
| **2015** | **106.3** | *237.6* | *2.23* | 36.5 | 31.4 | 4.5 | 6.7 | 6.5 | 2.1 | 2.7 | 9.0 | 0.7 | 1.5 | 4.5 | 0.2 |
| (%) yr holl aelwydydd: | | | | (34.3) | (29.5) | (4.2) | (6.3) | (6.1) | (2.0) | (2.5) | (8.5) | (0.7) | (1.4) | (4.2) | (0.2) |
| **2019** | **109.5** | *242.2* | *2.21* | 38.6 | 32.2 | 4.8 | 6.7 | 6.4 | 2.1 | 2.8 | 8.9 | 0.7 | 1.7 | 4.4 | 0.2 |
| (%) yr holl aelwydydd: | | | | (35.2) | (29.4) | (4.4) | (6.1) | (5.9) | (1.9) | (2.6) | (8.2) | (0.6) | (1.5) | (4.0) | (0.2) |
| **2020** | **109.7** | *241.7* | *2.20* | 38.9 | 32.2 | 4.9 | 6.6 | 6.4 | 2.1 | 2.8 | 8.9 | 0.7 | 1.7 | 4.4 | 0.2 |
| **(%) yr holl aelwydydd**: | | | | (35.5) | (29.4) | (4.4) | (6.0) | (5.8) | (1.9) | (2.5) | (8.1) | (0.6) | (1.5) | (4.0) | (0.2) |
| | **H.** | **PAP** | **MCA** | **Math: 1P** | **2P** | **2P** (1O, 1P) | **3P** | **3P** (2O, 1P) | **3P** (1O, 2P) | **4P** (0P) | **4P** (2+O, 1+P) | **4P** (1O, 3P) | **5P+** (0P) | **5P+** (2+O, 1+P) | **5P+** (1O, 4+P) |
| **Newid: 2019-20** | | | | | | | | | | | | | | | |
| **rhif** | **+0.2** | *-0.4* | *-0.01* | +0.4 | +0.0 | +0.1 | -0.1 | -0.0 | -0.0 | -0.0 | -0.0 | -0.0 | -0.0 | -0.0 | -0.0 |
| **%** | **(+0.2)** | *(-0.2)* | | (+0.9) | (+0.0) | (+1.4) | (-1.2) | (-0.5) | (-0.3) | (-0.9) | (-0.5) | (-0.3) | (-1.0) | (-0.8) | (-1.2) |
| **Newid: 2015-20** | | | | | | | | | | | | | | | |
| **rhif** | **+3.4** | *+4.2* | *-0.03* | +2.4 | +0.9 | +0.4 | -0.1 | -0.1 | -0.0 | +0.1 | -0.1 | -0.0 | +0.1 | -0.1 | -0.0 |
| **%** | **(+3.2)** | *(+1.8)* | | (+6.6) | (+2.7) | (+8.6) | (-1.6) | (-1.4) | (-0.7) | (+3.5) | (-1.7) | (-0.6) | (+9.3) | (-2.3) | (-5.7) |

*Ffynhonnell: Amcangyfrifon aelwydydd ar gyfer Cymru, canol blwyddyn 2020 ac yn gynharach, Llywodraeth Cymru. Cyhoeddwyd 23 Medi 2021.*

***Allwedd:***

**P** = Pob aelwyd (â phreswylwyr)
**PAP** = Poblogaeth Aelwydydd Preifat
**MCA** = Maint cyfartalog aelwyd
Maint cyfartalog aelwyd

*Mathau o aelwydydd:*

**1P** = aelwyd un person
**2P** = aelwyd dau berson
**3P** = aelwyd 3 pherson
**4P** = aelwyd 4 person

**5P+** aelwyd 5 person neu fwy.

O = nifer yr oedolion
P = nifer y plant.

Atodiad 3:
## AMCANGYFRIFON AELWYDYDD AR GYFER ARDALOEDD AWDURDODAU LLEOL YNG NGHYMRU, 2010-2020
(ardaloedd wedi'u rhestru yn ôl nifer yr aelwydydd, 2020)

Amcangyfrifon aelwydydd, blynyddoedd dethol. Niferoedd unedau wedi'u talgrynnu i'r cant agosaf.
% y newid yn seiliedig ar niferoedd go iawn.

| *Awdurdodau Lleol* | 2010 | 2011 | 2015 | 2019 | 2020 | newid 2019-2020 (%) | newid 2015-2020 (%) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Caerdydd | 140,900 | 142,800 | 149,200 | 154,900 | 156,300 | +1,400 (+0.9%) | +7,100 (+4.7%) |
| **Abertawe** | **102,600** | **103,500** | **106,300** | **109,500** | **109,700** | **+200 (+0.2%)** | **+3,400 (+3.2%)** |
| Rhondda Cynon Taf | 99,300 | 99,600 | 102,500 | 105,800 | 106,300 | +500 (+0.5%) | +3,800 (+3.7%) |
| Sir Gaerfyrddin | 78,400 | 78,900 | 80,100 | 82,200 | 82,900 | +700 (+0.9%) | +2,800 (+3.5%) |
| Caerffili | 74,000 | 74,500 | 75,800 | 76,900 | 77,200 | +300 (+0.5%) | +1,500 (+1.9%) |
| Sir y Fflint | 63,400 | 63,900 | 65,200 | 66,600 | 67,000 | +400 (+0.6%) | +1,800 (+2.8%) |
| Casnewydd | 60,700 | 61,300 | 62,700 | 65,800 | 66,500 | +700 (+1.1%) | +3,900 (+6.2%) |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 58,100 | 58,600 | 60,400 | 62,800 | 63,200 | +300 (+0.5%) | +2,800 (+4.6%) |
| Castell-nedd Port Talbot | 60,200 | 60,400 | 61,200 | 62,300 | 62,800 | +500 (+0.7%) | +1,600 (+2.6%) |
| Powys | 58,200 | 58,400 | 59,200 | 59,900 | 60,200 | +400 (+0.6%) | +1,100 (+1.8%) |
| Wrecsam | 56,600 | 57,100 | 57,900 | 58,900 | 59,100 | +200 (+0.3%) | +1,100 (+1.9%) |
| Bro Morgannwg | 53,300 | 53,600 | 55,000 | 58,000 | 58,900 | +800 (+1.5%) | +3,900 (+7.1%) |
| Sir Benfro | 52,800 | 53,200 | 54,400 | 56,100 | 56,600 | +500 (+0.9%) | +2,200 (+4.1%) |
| Gwynedd | 52,100 | 52,400 | 53,300 | 54,700 | 55,100 | +400 (+0.8%) | +1,800 (+3.4%) |
| Conwy | 50,900 | 51,300 | 52,100 | 52,900 | 53,400 | +400 (+0.8%) | +1,200 (+2.3%) |
| Sir Ddinbych | 40,700 | 40,600 | 41,300 | 41,900 | 42,200 | +400 (+0.9%) | +1,000 (+2.3%) |
| Torfaen | 38,400 | 38,600 | 39,200 | 40,400 | 40,800 | +400 (+1.0%) | +1,600 (+4.1%) |
| Sir Fynwy | 38,000 | 38,300 | 39,300 | 40,400 | 40,700 | +300 (+0.8%) | +1,400 (+3.6%) |
| Ynys Môn | 30,500 | 30,700 | 30,900 | 31,300 | 31,600 | +200 (+0.8%) | +600 (+2.0%) |
| Ceredigion | 31,400 | 31,400 | 31,300 | 31,200 | 31,400 | +200 (+0.5%) | +200 (+0.5%) |
| Blaenau Gwent | 30,300 | 30,400 | 30,700 | 31,300 | 31,400 | +100 (+0.4%) | +700 (+2.1%) |
| Merthyr Tudful | 24,100 | 24,300 | 24,500 | 24,900 | 25,000 | +0 (+0.1%) | +500 (+2.0%) |
| Cymru | 1,295,100 | 1,303,800 | 1,332,300 | 1,368,700 | 1,378,200 | +9,500 (+0.7%) | +45,900 (+3.4%) |

*Ffynhonnell: Amcangyfrifon aelwydydd ar gyfer Cymru, canol blwyddyn 2020 ac yn gynharach, Llywodraeth Cymru. Cyhoeddwyd 23 Medi 2021.*